Atodiad 4

Noswaith dda,

Gweler isod ac ynghlwm gwrthwynebiad swyddogol gan Gymdeithas yr Iaith i hysbysiad statudol Cyngor Caerdydd o'r bwriad i sefydlu darpariaeth ysgol gynradd i wasanaethu cyfnodau cynnar datblygiad Plasdŵr.

**Gwrthwynebiad CYI i hysbysiad statudol ysgol Pl...**

Yn gywir,
Mabli Siriol (Cyfeiriad wedi'i ddal yn ôl)
ar ran Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith

**Hysbysiad statudol ysgol Plasdŵr: Gwrthwynebiad swyddogol gan Gymdeithas yr Iaith**

1. Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru. Cell Caerdydd yw cangen leol y Gymdeithas yn y brifddinas.

**2. Gallwn grynhoi prif bwyntiau ein hymateb i'r hysbysiad swyddogol fel a ganlyn:**

- Mae Cymdeithas yr Iaith yn gwrthwynebu hysbysiad statudol Cyngor Caerdydd i agor ysgol ddwy ffrwd ddwyieithog fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr.
- Rydym yn seilio ein gwrthwynebiad ar bryderon ynglŷn â phroses yr ymgynghoriad a datganiadau gan Gabinet y Cyngor ac ystyriaethau addysgol. Amlinellir y rhain isod yn eu tro.
- Credwn taw ysgol benodedig Gymraeg gyda dwy ffrwd cyfrwng Cymraeg ddylai'r ysgol newydd fod ym Mhlasdŵr, nid ysgol ddwyieithog.
- Credwn ymhellach y dylai pob un o'r ysgolion newydd fydd yn cael eu hagor fel rhan o ddatblygiad Plasdŵr fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig, er mwyn sichrau bod pob person ifanc yn y gymuned yn tyfu lan yn siarad Cymraeg.
- Er mwyn i Gaerdydd wneud y cyfraniad sydd ei angen tuag at y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg, mae angen i'r ddinas wneud cynnydd dramatig a chyflym yng nghanran y plant sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y ddinas, ac felly ysgol benodedig Gymraeg sydd ei hangen ym Mhlasdŵr.

**3. Pryderon am broses yr ymgynghoriad a datganiadau gan y Cabinet**

3.1. Mewn trydariad ym mis Medi 2018, dywedodd arweinydd y Cyngor: "*i fod yn glir - bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan ganolog o ddatblygiad Plasdŵr*." Nid yw'n glir i ni pam felly y gwnaeth Cabinet y Cyngor benderfynu ymgynghori ar gynnig i sefydlu ysgol ddwyieithog, a thorri'r addewid cyhoeddus hwn gan yr arweinydd.

3.2. Mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor ar y cynllun, dim ond 8% o'r ymatebion oedd yn cefnogi'r bwriad i agor ysgol ddwyieithog - 15 ymateb i gyd. Cyflwynwyd ddeiseb gan Gymdeithas yr Iaith fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad gyda llofnodion gan 876 yn cefnogi ysgol benodedig Gymraeg yn hytrach nag ysgol ddwyieithog.

3.3. Ni all y Cyngor felly honni bod cefnogaeth ymysg y cyhoedd i'r bwriad i agor ysgol ddwyieithog.

3.4. Anghywir felly oedd y datganiad cyhoeddus gan Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Dirpwy Arweinydd, y Cynghorydd Sarah Merry yn dweud: "*Rhoddodd yr ymgynghoriad cyhoeddus gyfle i bobl gael dweud eu dweud ac rwy'n falch fod mwyafrif yr ymatebion a ddaeth i law yn gefnogol i'r cynigion ar gyfer datblygu ysgol newydd.*"

3.5. Er bod mwyafrif o ymatebwyr wedi cefnogi sefydlu ysgol, nid oedd mwyafrif o blaid ysgol ddwyieithog. Dyma ddatganiad camarweiniol ac anghyfrifol felly gan Ddirprwy Arweinydd y Cyngor sy'n methu â chyrraedd y safonau y mae hawl gennym eu disgwyl gan ein haelodau etholedig.

3.6. Ymhellach, roedd yr adroddiad a osodwyd gerbron y Cabinet yn rhoi darlun gamarweiniol o'r gefnogaeth i'r cynllun. Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar yr ymgynghoriad yn nodi:

> "*Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gefnogol i'r cynnig gyda 58% (99) o'r rhai a ymatebodd yn ffafrio sefydlu ysgol gynradd newydd dau ddosbarth mynediad i wasanaethu rhannau o ddatblygiad Plasdŵr yng ngogledd-orllewin Caerdydd gyda 9% (15) o'r rhai a ymatebodd yn cyfeirio'n benodol at gefnogi'r syniad o ysgol ddwy ffrwd yn hytrach nag un ai ysgol Gymraeg neu Saesneg yn unig*."

Fodd bynnag, nid yw ail gymal y frawddeg hon, sy'n cyfeirio at y ffaith taw dim ond 15 o ymatebion oedd yn cefnogi sefydlu ysgol ddwyieithog, yn ymddangos yn yr adroddiad a aeth i'r Cabinet, adroddiad sydd fel arall bron yn unfath ei gynnwys i'r adroddiad i'r pwyllgor. Dyma hepgor darn bwysig o wybodaeth am y sefyllfa, ac mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad taw'r bwriad wrth wneud hyn ydy camarwain a lliwio'r drafodaeth yn y Cabinet.

3.7. Ymhellach, dywedodd y Cyngor mewn gwerthusiad o ymatebion i'r ymgynghoriad gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y Cyngor:

> "*mae risg sylweddol y gallai ysgol Gymraeg yn unig, ddwy ffrwd, ddenu gormod o ddisgyblion o ysgolion a dalgylchoedd Cymraeg eraill gan beri tan-danysgrifio i'r ysgolion hynny, gan eu gwneud yn llai diogel yn ariannol. Gallai hyn wedyn, amharu ar gynnydd yn y niferoedd sy'n mynd i lefydd mewn addysg Gymraeg yn yr ardal ehangach am gyfnod estynedig*."

3.8. Damcaniaeth ddi-sail ac afresymegol ydy hon. Yn enwedig mewn cyd-destun lle mae'r ysgol yn cael ei sefydlu o ganlyniad i dwf cyflym yn y boblogaeth leol o achos datblygiad enfawr newydd, nid yw'r ddadl y byddai agor ysgol cyfrwng Cymraeg benodedig yn niweidio ysgolion Cymraeg eraill yn dal dŵr. Bydd y nifer o blant yn yr ardal yn cynyddu'n aruthrol — nid cystadlu am yr un disgyblion fydd ysgolion Cymraeg lleol. Tueddiad y rhan helaeth o bobl yn yr ardal fydd anfon eu plant i'r ysgol agosaf waeth beth yw'r cyfrwng. Dyma gyfle euraidd felly i wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn norm i'r gymuned newydd hon trwy agor ysgol benodedig Gymraeg fel yr ysgol gyntaf, a'r ysgolion eraill newydd fydd yn dilyn hefyd.

3.9. Mae ymddygiad y Cyngor ynghylch y mater hwn wedi bod yn hynod siomedig, ac wedi dangos tueddiad i gamarwain ac anwybyddu trigolion y ddinas, gan danseilio polisi iaith genedlaethol Llywodraeth Cymru ac ymrwymiad honedig y Cyngor i ehangu addysg Gymraeg.

## 4. Ystyriaethau addysgol

4.1. Credwn taw ysgol benodedig Gymraeg gyda dwy ffrwd cyfrwng Cymraeg ddylai'r ysgol newydd fod ym Mhlasdŵr, nid ysgol ddwyieithog.

4.2. Mae agor ysgol newydd sbon ar gyfer y datblygiad tai hwn yn cynnig cyfle euraidd i gynyddu'n gyflym y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a dechrau normaleiddio addysg Gymraeg yn y ddinas. Drwy beidio defnyddio'r cyfalaf ariannol sy'n dod gyda'r datblygiad tai anferth hwn i agor ysgol cyfrwng Cymraeg, byddai'r cyngor yn rhwystro twf y Gymraeg yn yr ardal a dyheadau'r rhan helaeth o bobl yn yr ardal i adfer y Gymraeg a gweld ein pobl ifanc yn dod yn rhugl yn yr iaith.

4.3. Nid ydym yn derbyn rhesymeg y Cyngor am sgiliau ieithyddol disgyblion yr ysgol ddwyieithog arfaethedig. Dim ond trwy sefydlu ysgol benodedig Gymraeg y bydd y Cyngor yn sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn rhugl eu Cymraeg — nid yw ysgolion dwyieithog yn sicrhau rhuglder plant yn y Gymraeg yn yr un modd. Gyda'r cynnig hwn, byddai'r Cyngor ar yr un pryd yn amddifadu disgyblion y ffrwd cyfrwng Saesneg o ruglder yn y Gymraeg, a hefyd yn peri risg i amgylchedd ieithyddol a defnydd y Gymraeg yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg.

4.4. Er mwyn cyrraedd y nod cenedlaethol o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, mae'n hanfodol bod cynghorau sir yn cynyddu eu darpariaeth o addysg Gymraeg nawr.

4.5. Mae dadansoddiad ystadegol a gomisiynwyd gan Gymdeithas yr Iaith wedi dangos bod yn rhaid i Gaerdydd sicrhau cynnydd dramatig a chyflym yn nifer y disgyblion sy'n mynd i ysgol Gymraeg, er mwyn cyfrannu at greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r dadansoddiad yn dangos faint o blant saith mlwydd oed Caerdydd ddylai fod mewn addysg Gymraeg er mwyn gwneud y cyfraniad sydd angen gan Gaerdydd at y targed:

| Blwyddyn | 2025 | 2030 | 2035 | 2040 |
|---|---|---|---|---|
| % plant 7 mlwydd oed mewn addysg Gymraeg | 32.8% | 43% | 56.4% | 71.8% |

4.6. Yn 2014, dim ond 15.1% o blant saith oed Caerdydd oedd yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n glir felly bod agor nifer o ysgolion Cymraeg newydd, ynghyd â Chymreigio ysgolion presennol y ddinas, yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau Caerdydd i gyfrannu at y nod cenedlaethol.

4.7. Byddai agor ysgol benodedig Gymraeg fel ysgol gyntaf y datblygiad enfawr hwn yn hwb mawr i'r Gymraeg yn yr ardal a Chaerdydd i gyd — gan osod cynsail i agor ysgolion penodedig Cymraeg mewn datblygiadau newydd eraill a normaleiddio addysg Gymraeg ym mhob cymuned - a hynny nid yn unig yn y brifddinas ei hun, ond fel esiampl i'w dilyn gan siroedd eraill.

4.8. Credwn fod y Gymraeg yn hawl i bob plentyn yng Nghaerdydd, o ba gefndir bynnag. Mae angen i Gyngor Caerdydd ddangos uchelgais a gwireddu'r hawl hon i bob person ifanc ym mhrifddinas Cymru trwy agor ysgolion penodedig Cymraeg yn unig ym Mhlasdŵr, ac ar draws holl gymunedau'r ddinas yn ystod y blynyddoedd i ddod.

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ymateb hwn a'r materion sy'n codi ohono, cysylltwch â post@cymdeithas.cymru.*

**Cell Caerdydd, Cymdeithas yr Iaith**
**Mis Mawrth 2020**